Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Dyddiad Cyflwyno'r Cynllun Gweithredu: 23 Chwefror 2023

# Ymateb i: Cyd-arolwg o'r gwasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth mewn timau troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr

Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad: 7 Mehefin 2022

## CYFLWYNIAD / CYD-DESTUN

Mae Arolygiaeth Prawf EF (HMIP) ar gyfer Cymru a Lloegr yn arolygiaeth annibynnol sy’n craffu ar yr amodau i droseddwyr a’r driniaeth ohonynt. Maen nhw’n adrodd eu canfyddiadau ar effeithiolrwydd gwaith y gwasanaethau prawf a throseddwyr ifanc ar hyd a lled Cymru a Lloegr i’r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) ac i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS).

Mewn ymateb i adroddiadau thematig yn ymwneud â’r system cyfiawnder ieuenctid, bydd MoJ yn arwain a chydlynu’r gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredu i fynd i’r afael â’r pryderon allweddol a’r pryderon sydd angen blaenoriaeth. Mae’r cynlluniau gweithredu’n darparu camau a gweithrediadau penodol i ymdrin â’r pryderon allweddol a’r pryderon sydd angen blaenoriaeth, a’r rheiny’n gamau a gweithrediadau clir, mesuradwy, cyraeddadwy, perthnasol, sy’n rhoi’r ffocws ar y canlyniad, ac maent yn nodi perchennog ac amseriad bob cam yn glir. Anfonir cynlluniau gweithredu at HMIP a chânt eu cyhoeddi ar wefan GOV.UK. Cymerir camau i fonitro a rhoi adroddiadau am y cynnydd o ran gweithrediad a darpariaeth y cynlluniau gweithredu hefyd.

System leol i raddau mawr yw’r system cyfiawnder ieuenctid. Mae’n ddibynnol ar waith heddluoedd lleol, annibynnol (a oruchwylir gan Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd) a Thimau Troseddwyr Ifanc lleol (yn rhan o awdurdodau lleol), sy’n gweithio gydag amrediad o gyrff eraill fel gwasanaethau GIG ac ysgolion lleol. Yn aml felly, dim ond nifer gweddol isel o argymhellion a wneir yn uniongyrchol i’r Weinyddiaeth Gyfiawnder, neu i’r llywodraeth ganolog yn fwy cyffredinol, mewn adroddiadau thematig gan HMIP sy’n ymwneud â’r system cyfiawnder ieuenctid. Er hynny, mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yn derbyn bod rôl arweiniol hanfodol ganddi yn y system i hyrwyddo a gyrru newid er mwyn gwneud y system cyfiawnder ieuenctid yn fwy effeithiol ac effeithlon o ran atal ac ymdrin â throseddau a gyflawnir gan blant a phobl ifanc. Dyma’r rheswm pam y cymerodd MoJ, yn 2022, y rôl o arwain a chydlynu cynhyrchiad cynlluniau gweithredu mewn perthynas ag arolygiadau thematig ieuenctid HMIP am y tro cyntaf, a bydd yn parhau i arwain a chadeirio grwpiau ar draws y system i fonitro cynnydd wrth ddarparu’r argymhellion.

Mae’r Timau Troseddwyr Ifanc (YOTs; a elwir hefyd yn Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid) yn bartneriaethau amlasiantaeth sy’n dod â phartneriaid at ei gilydd i ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol. Mae natur leol, amlasiantaeth ac amlddisgyblaethol Timau Troseddwyr Ifanc yn golygu bod yn rhaid i bartneriaid gymryd agwedd gydweithredol er mwyn gyrru gwelliant.

Pan mae MoJ a’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi eu rhestru fel sefydliadau sydd â goruchwyliaeth, ac mae’r argymhelliad wedi ei gyfeirio tuag at dimau troseddwyr ifanc unigol neu eu byrddau rheoli, mae hyn yn dangos bod MoJ a YJB yn derbyn/rhannol dderbyn nod yr argymhelliad. Lle bo’n bosibl a phriodol, bydd MoJ a’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn cymryd camau i gefnogi partneriaethau lleol wrth wella, Ond, ni ellir ystyried bod hyn yn gyfystyr â derbyn cyfrifoldeb am ddarpariaeth, oherwydd gan y gwasanaethau lleol o hyd y bydd y cyfrifoldeb am weithredu’r argymhellion perthnasol.

| Rhif yr Arg | Argymhelliad | Ymateb<br>Y Cam Gweithredu a Gymerwyd/Gynlluniwyd | Y Perchennog Cyfrifol / Sefydliad sy'n Goruchwylio | Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Dylai cyfarwyddiaethau Addysg a Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes (SHELL) yr **Adran Addysg**/ **Llywodraeth Cymru**, mewn cydweithrediad ag Uned Polisi Cyfiawnder Ieuenctid y **Weinyddiaeth Gyfiawnder**: ystyried ffyrdd o atal yr anghenion hynny sydd gan blant yn y timau troseddwyr ifanc na chawsent eu nodi na'u diwallu, drwy wneud asesiadau arbenigol cynharach, ymyrraeth a chymorth i blant sy'n agored i niwed (drwy'r Ddarpariaeth Amgen a rhaglenni ysgolion SAFE yn Lloegr a'r ddarpariaeth gyfatebol yng Nghymru) | **Derbyniwyd**.<br><br>**MoJ**<br><br>Mae MoJ yn cytuno bod adnabod yr anghenion yn gywir ac yn gynnar o'r budd gorau i'r plentyn a bod sicrhau y bydd yr anghenion hyn wedi eu diwallu'n gostwng y risg y bydd y plant yn mynd i mewn i'r system gyfiawnder o gwbl. Mae MoJ yn gwneud cyfres o waith i gyflawni'r nod hwn, yn cynnwys gosod dangosyddion perfformiad allweddol newydd i dimau troseddwyr ifanc, gan gynnwys rhoi ffocws penodol ar y gyfran o blant gydag angen dysgu ychwanegol/SEND sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth addas ac sydd â chynllun dysgu ffurfiol ar waith.<br><br>Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cefnogi'r Adran Addysg gyda'r diwygiad i'r Ddarpariaeth Amgen a SEND drwy ymgysylltu â thimau troseddwyr ifanc a phartneriaid cyfiawnder ieuenctid mewn perthynas â datblygu polisi i nodi ymhle y mae bylchau yn y dystiolaeth, ac enghreifftiau o arferion gorau i ganfod a diwallu yn y ffordd orau anghenion plant sydd â SEND o fewn/ar ymylon y system cyfiawnder ieuenctid.<br><br>Mae MoJ hefyd wedi helpu i ddatblygu prosiect y Tasglu Arbenigol ar gyfer Darpariaeth Amgen (sydd wedi ei amlinellu'n fanylach isod) ac er bod y rhaglen hon wedi ei harwain gan yr Adran Addysg, mae MoJ yn chwarae rôl allweddol yn y llywodraethiant er mwyn sicrhau bod y | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Uned Polisi Cyfiawnder Ieuenctid | **Parhaus**<br><br>Cafodd Dangosyddion Perfformiad Allweddol eu gosod a'u cyfathrebu i'r timau troseddwyr ifanc a'u partneriaid strategol ym mis **Hydref 2022**, a bydd gofyn i dimau troseddwyr ifanc gasglu data ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol newydd o fis **Ebrill 2023**. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | rhaglen yn cefnogi ein hamcanion i atal troseddwyr ifanc yn eglur drwy ddarparu cymorth cofleidiol i blant sy’n agored i niwed mor fuan ag y bo modd.<br><br>**Yr Adran Addysg**<br><br>Mae’r argymhelliad hwn wedi ei dderbyn ac mae eisoes ar waith.<br><br>Mae’r rhaglen Tasgluoedd Arbenigol Darpariaeth Amgen (APST) yn gweithredu mewn 22 o ardaloedd yn Lloegr lle mae trais difrifol ar ei amlycaf. Mae timau amlddisgyblaethol o arbenigwyr (sy’n cynnwys gweithwyr troseddwyr ifanc, therapyddion iechyd meddwl, therapyddion iaith a lleferydd a gweithwyr teulu) yn darparu cymorth ataliol a gwellhaol i ddisgyblion o fewn ysgolion Darpariaeth Amgen. Gall y timau hyn, sydd wedi cyd-leoli ar y safle, adeiladu perthnasoedd sefydlog, llawn ymddiriedaeth â phobl ifanc, a darparu asesiad ac ymyrraeth ymatebol, cyfannol wedi eu teilwra.<br><br>Mae plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn darpariaeth amgen erioed yn fwy tebygol o fod wedi derbyn rhybudd neu ddedfryd am drosedd na’u cyfoedion prif ffrwd (mae 41% wedi derbyn rhybudd neu ddedfryd am drosedd, ac mae 14% wedi derbyn rhybudd neu ddedfryd am drosedd trais ddifrifol. Gwelwch gyhoeddiad ystadegol mis Mawrth 2022 yr Adran Addysg-MoJ i gael rhagor o fanylion).<br><br>Mae’r rhaglen SAFE (Cymorth, Presenoldeb, Cyflawni, Rhagori) mewn 10 ardal awdurdod lleol yn Lloegr lle mae trais difrifol ar ei amlycaf. Arweinir tasgluoedd gan bartneriaethau o ysgolion prif ffrwd sy’n gweithio gyda phartneriaid lleol i fuddsoddi mewn ymyriadau ar sail tystiolaeth sydd wedi eu hanelu at atal pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn trais difrifol ac at gynyddu eu hymgysylltiad ag addysg. Mae tasgluoedd yn gwneud penderfyniadau am fuddsoddi wedi eu seilio ar | Pennaeth yr Uned Ymgysylltu ag Addysg a Thrais Difrifol | **Cwblhawyd/yn parhau.**<br><br>Lansiwyd y rhaglen APST yn **hydref 2021**<br><br>Lansiwyd Tasglu SAFE yn **hydref 2021** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | asesu anghenion strategol lleol, fel bod y cymorth wedi ei ganolbwyntio'n effeithiol ar y bobl ifanc hynny mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd sydd dan y risg mwyaf. Mae'r rhaglen SAFE wedi ei bwriadu i ddarparu ymyrraeth cyn cyrraedd y cam trais difrifol, fel bod modd deall ac ymateb i anghenion pobl ifanc yn gynnar.<br><br>Bydd **Llywodraeth Cymru** yn gweithio mewn amrywiaeth o ardaloedd i ganfod plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed ar gam cynnar a chymryd camau ataliol, fel sydd wedi eu hamlinellu isod:<br><br>Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)<br><br>Cam gweithredu: Bydd Llywodraeth Cymru'n creu grŵp tasg a gorffen amlasiantaeth i archwilio'r ffordd orau o sicrhau bod gwasanaethau cymorth yn cael eu darparu mewn ffordd amserol, wedi ei chydlynu, i gefnogi plant i aros yn y brif ffrwd ac, os nad yw hynny'n bosibl, i gefnogi disgyblion EOTAS (yn cynnwys grwpiau penodol fel plant sy'n gysylltiedig â'r timau troseddwyr ifanc) ac ystyried sut y gallwn gefnogi gweithrediad y dull ysgol gyfan ar gyfer iechyd meddwl a lles ar draws y safleoedd EOTAS.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi arweiniad Cyfeirio a Chomisiynu EOTAS gyda'r bwriad o ddarparu cymorth i'n plant mwyaf bregus, sy'n cynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â'r timau troseddwyr ifanc.<br><br>Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n adolygu Fframwaith Gweithredu EOTAS. Bydd gweithrediad y Fframwaith Gweithredu diwygiedig yn cael ei fonitro a bydd Llywodraeth Cymru'n comisiynu ymchwil i werthuso pa mor effeithiol y mae'r fframwaith wedi'i weithredu. | Cymru – Dirprwy Gyfarwyddwr yr Adran Cymorth i Ddysgwyr a Dirprwy Gyfarwyddwr yr Adran Cydraddoldeb mewn Addysg | **Cwblhawyd/yn parhau.**<br><br>Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Yng Nghymru, mae'r rhaglen diwygio ADY yn newid yr arferion a'r fframwaith cyfreithiol i gefnogi plant a phobl ifanc fel bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mewn ffordd fwy amserol. Mae'r Ddeddf ADY a Thribiwnlys Addysg a'r Cod ADY i Gymru'n gwneud darpariaeth benodol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw mewn llety cadw ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr.<br><br>Dechreuodd gweithrediad graddol y system ADY ym mis Medi 2021. Yn rhan o'r rhaglen gweithredu ADY cafodd grŵp llywio ADY cenedlaethol ei sefydlu ac mae Estyn yn gwneud adolygiad thematig o'r system ADY. Disgwylir i hwn gael ei gyhoeddi yn 2023 | | Dechreuodd gweithrediad graddol y system ADY ym mis **Medi 2021**.<br><br>Disgwylir cyhoeddi'r adolygiad thematig o'r system ADY yn **2023**. |
| 2 | Dylai'r **Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid** [DS – gwelwch i'r dde] adolygu eu dangosydd cenedlaethol o ymgysylltiad ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i greu un sy'n darparu mesuriad mwy ystyrlon o berfformiad. Dylai hyn gynnwys y lefelau o gyflawniad addysgol a gyrhaeddir gan blant sy'n gweithio gyda'r Tîm Troseddwyr Ifanc ar ddiwedd y cyfnod o oruchwyliaeth a dylai gynnwys achosion tu allan i'r llys yn ogystal ag achosion gorchymyn llys | Mae'r **Weinyddiaeth Gyfiawnder** (sydd â'r cyfrifoldeb am osod y dangosyddion perfformiad allweddol) wedi derbyn yr argymhelliad hwn **yn rhannol**.<br><br>Ym mis Hydref, ysgrifennodd y gweinidog Cyfiawnder Ieuenctid ar y pryd at holl benaethiaid y timau troseddwyr ifanc, a phartneriaid lleol eraill, i gadarnhau'r dangosyddion perfformiad allweddol newydd ychwanegol yr oedd MoJ yn eu gosod i ddarparu mesuriadau mwy ystyrlon o berfformiad lleol mewn perthynas â chyfiawnder ieuenctid. Roedd hyn yn dilyn ymgysylltiad â thimau troseddwyr ifanc ac eraill oedd ar y rhestr arfaethedig ers mis Mai 2022.<br><br>Bydd y dangosyddion perfformiad allweddol yn dod i rym o fis Ebrill 2023, ac mae'r MoJ yn disgwyl i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid fonitro perfformiad yn lleol drwy'r fframwaith perfformiad newydd y mae'r weinyddiaeth wedi gofyn i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ei ddatblygu. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (datblygwyd dangosyddion perfformiad allweddol) / Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth a monitro. | Gosodwyd y dangosyddion perfformiad allweddol a chawsent eu cyfathrebu i'r timau troseddwyr ifanc a'u partneriaid strategol ym mis **Hydref 2022**, a bydd gofyn i dimau troseddwyr ifanc gasglu data ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol newydd o **fis Ebrill 2023.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd y dangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud â'r plant i gyd sydd ar ddiwedd cyfnod o oruchwyliaeth ac mae'n cynnwys achosion y tu allan i'r llys yn ogystal ag achosion gorchymyn llys.<br><br>Mae un o'r dangosyddion perfformiad allweddol ychwanegol yn ymwneud yn benodol ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth – sef, y gyfran o blant sy'n cael eu cefnogi gan y Tîm Troseddwyr Ifanc sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.<br><br>Ar y cam hwn, nid yw'n ymwneud â chyrhaeddiad addysgol am ddau reswm:<br><br>• does dim metrig syml i fesur cyrhaeddiad addysgol wedi'i gofnodi ar hyn o bryd gan dimau troseddwyr ifanc ac ardaloedd lleol, ac nid oedd yn bosibl datblygu hyn mewn pryd ar gyfer y gyfres newydd o ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n dod i rym o fis Ebrill 2023;<br>• fel cam cyntaf, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder eisiau sicrhau bod timau troseddwyr ifanc yn cefnogi plant i ymgysylltu'n gyson ac yn llawn mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mewn amser, byddwn yn dymuno mireinio'r mesur i ganolbwyntio fwy ar gyflawniad. Yn y cyfamser, mae'r arweiniad ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol yn nodi'n glir y dylai addysg, hyfforddiant a chyflogaeth gyfrannu tuag at gyflawniad a chynnydd. | | |
| 3 | Dylai **byrddau rheoli Timau Troseddwyr Ifanc**: sicrhau bod gan yr holl blant asesiad | **Derbyniwyd**.<br><br>Mae gofyn i'r holl dimau troseddwyr ifanc asesu statws addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y plentyn, drwy AssetPlus a thrwy raglen | | Gosodwyd dangosyddion perfformiad allweddol a chawsent eu cyfathrebu i dimau troseddau ieuenctid |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | addysg, hyfforddiant a chyflogaeth cynhwysfawr | asesu datrysiadau y tu allan i'r llys a fydd yn cael ei chyflwyno ym mis Ebrill 2023.<br><br>Wrth i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gryfhau ei agwedd oruchwyliol, gellir monitro hwn wedyn drwy bresenoldeb y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar fyrddau rheoli a thrwy graffu ar ddata lleol. | Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – sefydliad sy'n goruchwylio | ym **mis Hydref 2022**, a bydd gofyn i dimau troseddwyr ifanc gasglu data ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol o fis **Ebrill 2023.** |
| 4 | Dylai **byrddau rheoli Timau Troseddwyr Ifanc**: fonitro, ochr yn ochr â'r awdurdod lleol, agweddau allweddol o waith addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i blant sy'n gweithio gyda'r tîm troseddwyr ifanc, yn cynnwys:<br><br>• ehangder gwaharddiadau o ysgolion yng ngharfan y tîm troseddwyr ifanc;<br>• y lefel wirioneddol o bresenoldeb yn yr ysgol, coleg, gwaith neu leoliad hyfforddi;<br>• ehangder y cymorth ychwanegol a roddir i blant gydag AAA/ADY; | **Derbyniwyd**.<br><br>Mae deall a monitro Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn ganolog i'r matrics sgiliau cyfiawnder ieuenctid a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.<br><br>Mae'r dangosydd perfformiad allweddol newydd ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (a ddatblygwyd gan MoJ) yn gofyn bod timau troseddwyr ifanc yn cofnodi lefel presenoldeb plant yn yr ysgol ac anghenion AAA plant yn y garfan, a'r gefnogaeth a roddir iddynt.<br><br>Wrth i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gryfhau ei ddull goruchwylio, bydd yn monitro cynnydd yn erbyn hyn (a dangosyddion perfformiad allweddol eraill) yn agos. Trwy bresenoldeb ar Fyrddau Rheoli, bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ceisio sicrhad bod y Bwrdd lleol yn goruchwylio'r materion sydd wedi eu nodi yn yr argymhelliad hwn. Bydd eu presenoldeb hefyd yn rhoi'r cyfle iddynt archwilio'n fanwl beth mae data dangosyddion perfformiad allweddol pennawd yn ei olygu, ac effeithiolrwydd ac effaith unrhyw weithredu adferol. | Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – sefydliad sy'n goruchwylio | Cwblhau'r matrics Sgiliau Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid diwygiedig erbyn **2023/24**.<br><br>Gosodwyd dangosyddion perfformiad allweddol a chawsent eu cyfathrebu i dimau troseddwyr ifanc a'u partneriaid ym mis **Hydref 2022**, a bydd gofyn i dimau troseddwyr ifanc gasglu data ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol newydd o **fis Ebrill 2023.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • bod pob plentyn sydd â chynllun addysg, iechyd a gofal neu gynllun datblygu unigolyn yn derbyn adolygiad blynyddol o'r cynlluniau hyn er mwyn ateb y gofyniad statudol. | | | |
| 5 | Dylai **byrddau rheoli Timau Troseddwyr Ifanc**: ddatblygu amcanion uchelgeisiol ar gyfer gwaith addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y timau troseddwyr ifanc, yn cynnwys y nod fod pob plentyn yn cyflawni Lefel 2 mewn Saesneg a Mathemateg | **Derbyniwyd yn rhannol.**<br><br>Mae'r arweiniad adrodd data sy'n mynd law yn llaw â dangosyddion perfformiad allweddol addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (a osodwyd gan MoJ) yn sicrhau bod timau troseddwyr ifanc yn annog plant i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth addas a chynaliadwy sy'n cyfrannu at gyrhaeddiad. Er nad yw cyflawni lefel 2 yn briodol i bob plentyn ar bob cam yn y daith â'r tîm troseddwyr ifanc, er enghraifft, efallai bod rhai plant yn rhy ifanc i astudio ar gyfer Lefel 2, bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ceisio sicrhad bod y gwasanaethau'n mabwysiadu dull uchelgeisiol tuag at gyrhaeddiad addysg, hyfforddiant a chyflogaeth plant. | Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – sefydliad sy'n goruchwylio | Gosodwyd dangosyddion perfformiad allweddol a chawsent eu cyfathrebu i dimau troseddwyr ifanc a'u partneriaid strategol ym **mis Hydref 2022**, a bydd gofyn i dimau troseddwyr ifanc gasglu data ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol o fis **Ebrill 2023.** |
| 6 | Dylai **byrddau rheoli Timau Troseddwyr Ifanc**: sefydlu amrediad ehangach o gyfleoedd hyfforddi galwedigaethol i'r plant hynny sydd y tu hwnt i oedran ysgol orfodol | **Derbyniwyd**.<br><br>Mae'r arweiniad am adrodd data sy'n mynd law yn llaw ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn sicrhau bod timau troseddwyr ifanc yn annog plant i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth addas a chynaliadwy sy'n cyfrannu at gyflawniad. | Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – sefydliad sy'n goruchwylio | Gosodwyd dangosyddion perfformiad allweddol a chawsent eu cyfathrebu i dimau troseddwyr ifanc a'u partneriaid strategol ym **mis Hydref 2022**, a |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn gofyn i'r timau troseddau ieuenctid gynnwys manylion eu cynnig addysg, hyfforddiant a chyflogaeth – yn cynnwys addysg bellach a galwedigaethol – yn yr Arweiniad Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer 2023/2024 | | bydd gofyn i dimau troseddwyr ifanc gasglu data ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol o fis **Ebrill 2023.**<br><br>Cynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer **2023/2024.** |
| 7 | Dylai **byrddau rheoli Timau Troseddwyr Ifanc**: fonitro a gwerthuso'r lefelau o ymgysylltiad a chyrhaeddiad addysgol mewn grwpiau wedi eu cynrychioli'n anghymesur yn llwyth achos y tîm troseddwyr ifanc er mwyn datblygu gwelliant, yn cynnwys gwelliant i:<br><br>• blant sydd â chynllun addysg, iechyd a gofal neu gynllun datblygu unigolyn;<br>• plant gydag AAA/ADY;<br>• plant sydd wedi eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol; | **Derbyniwyd**.<br><br>Bydd data sy'n cael ei gadw gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi ei rannu yn ôl nodweddion gwarchodedig, mae hyn yn cynnwys hil ac ethnigrwydd.<br><br>Disgwylir i bartneriaid addysg ar fyrddau rheoli gyfrannu data sy'n nodi anghymesuredd hiliol yn eu hardaloedd.<br><br>Mae'r arweiniad atodol i ddangosyddion perfformiad allweddol yn gofyn bod timau troseddwyr ifanc yn sicrhau bod lleoliadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn addas i anghenion y plentyn, yn cynnwys eu nodweddon gwarchodedig. | Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – sefydliad sy'n goruchwylio | Gosodwyd dangosyddion perfformiad allweddol a chawsent eu cyfathrebu i dimau troseddwyr ifanc a'u partneriaid strategol ym **mis Hydref 2022**, a bydd gofyn i dimau troseddwyr ifanc gasglu data ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol o fis **Ebrill 2023.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • achosion o ddatrysiadau y tu allan i’r llys;<br>• plant sy’n cael eu rhyddhau o dan ymchwiliad. | | | |